YR EGLWYS YNG NGHYMRU — THE CHURCH IN WALES

CORFF CYNRYCHIOLWYR YR EGLWYS YNG NGHYMRU
THE REPRESENTATIVE BODY OF THE CHURCH IN WALES

# SYSTEM HAWLEBAU YR EGLWYS YNG NGHYMRU
# NODYN CYFARWYDDYD

## Cyflwyniad

Mae hawleb yn cyfeirio at system yr Eglwys o ganiatâd ar gyfer newidiadau a gwaith trwsio i adeiladau eglwys (a'u cynnwys) a mynwentydd. Mae hawleb wedi'i rheoleiddio o dan Reolau Hawlebau Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru drwy Reolau Llysoedd yr Esgobaethau (Atodiad I). Mae pob esgobaeth yn gweithredu'r system hawlebau yn ei hardal.

Mae'r system Hawlebau yn galluogi'r Eglwys yng Nghymru i gael ei heithrio hefyd o'r angen i wneud cais am Gydsyniad Adeilad Rhestredig ar gyfer adeiladau eglwys mewn rhai amgylchiadau (gweler Adran 16 isod). Esemptiad Eglwysig yw hyn.

Mae'r nodyn cyfarwyddyd hwn yn esbonio'r system hawlebau i helpu'r rhai sy'n ei defnyddio, yn enwedig plwyfi, i ddeall y system yn well. Mae wedi'i gyflwyno mewn cyfres o 'Gwestiynau Cyffredin'.

## 1. Beth yw hawleb?

Hawleb yw trwydded eglwysig sy'n rhoi caniatâd i wneud newidiadau ffisegol. Mecanwaith yr Eglwys yng Nghymru ydyw ar gyfer rheoli a chymeradwyo gwaith a newidiadau i'w heiddo eglwysig. Mae'n system ganiatáu sydd â'r nod o ystyried cynigion yn ofalus cyn i newidiadau gael eu gwneud ac mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer cyngor arbenigol ac ymgynghoriad allanol cyn gwneud penderfyniad.

Yn Ionawr 2018, cyflwynodd Corff Cynrychiolwyr yr Eglwys yng Nghymru System Hawlebau Ar-lein sy'n prosesu tri math o gais hawleb erbyn hyn: Rhestr A, Rhestr B a Llawn. Dim ond un math o gais hawleb (Llawn) oedd i'w gael o'r blaen ar gyfer pob math o waith ac roedd yn cael ei gyflwyno ar bapur. Mae ceisiadau Rhestr A a B yn fath llai o hawleb lawn ac yn cwmpasu gwaith cynnal a chadw rheolaidd, gwaith trwsio tebyg am debyg, a gwaith syml (e.e. newid boeler) nad yw'n cael fawr o effaith os o gwbl ar ffabrig hanesyddol yr eglwys neu'r fynwent.

## 2. Pwy sy'n caniatáu hawleb?

Canghellor yr Esgobaeth sy'n caniatáu hawleb lawn. Cofrestrydd yr Esgobaeth sy'n caniatáu hawleb Rhestr B. Mae'r ddau wedi cymhwyso'n gyfreithiol (er bod y Canghellor yn Farnwr fel arfer) ac yn asesu pob cais am hawleb ar sail y 'dystiolaeth' a gyflwynir a chydymffurfiaeth y cais â Rheolau Hawlebau.

Bydd tystiolaeth o'r fath yn dod o'r dogfennau ategol sydd wedi'u hatodi i'r cais (e.e. cynlluniau a manylebau'r pensaer, dyfynbrisiau'r adeiladwr, ffotograffau ac ati) a ddarperir gan yr ymgeisydd. Yn achos cais hawleb llawn, bydd y Canghellor yn ystyried cyngor gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth, arsylwadau gan bobl leol (mae pob cais am hawleb yn cael ei gyhoeddi) a rhai ymgynghoreion statudol (Cadw, Awdurdodau Cynllunio Lleol, Cymdeithasau Amwynderau a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru).

## 3. Beth mae Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yn ei wneud?

Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yw'r prif gorff sy'n cynghori Canghellor yr Esgobaeth. Mae'n cynnwys clerigion (Archddiaconiaid) yn ogystal ag arbenigwyr mewn meysydd fel pensaernïaeth, archaeoleg, hanes, clychau neu organau. Mae'r Pwyllgor yn wirfoddol ac mae'r Eglwys yng Nghymru'n dibynnu ar haelioni'r gwirfoddolwyr hyn sy'n rhoi eu hamser a'u harbenigedd i'r Pwyllgor.

Mae'r Pwyllgor yn cael ei reoli gan Ysgrifennydd sy'n cydgysylltu cyfarfodydd a cheisiadau gyda Chofrestrydd yr Esgobaeth. Er bod cyfarfod i drafod cynigion yn rhan allweddol o waith y Pwyllgor, mae yno hefyd i gynnig cyfarwyddyd a chyngor i blwyfi'n gyffredinol (e.e. cyngor cyn ymgeisio). Argymhellir yn gryf felly bod plwyfi'n trafod cynigion yn gynnar gyda'u Pwyllgor – gallai arbed amser ac arian a bydd yn gwneud y broses ymgeisio'n fwy hwylus heb os.

## 4. Oes yna unrhyw waith nad oes angen hawleb ar ei gyfer?

Oes. Mae'r rheolau'n cynnwys gwahanol 'fân faterion' lle nad oes angen hawleb, er fe argymhellir bod plwyfi'n eu cofnodi o hyd fel eitem Rhestr A ar y System Hawlebau Ar-lein. Mae'r rheolau'n eithaf manwl ond yn y bôn maen nhw'n golygu nad oes angen hawleb ar gyfer pethau fel:

- Symud dodrefn
- Ychwanegiadau dros dro ar gyfer digwyddiadau ac achlysuron arbennig
- Glanhau (yn unig) peipiau glaw a pheipiau draenio
- Ailosod darn(au) o beipiau glaw neu gael rhai newydd tebyg am debyg
- Ailosod ychydig o lechi/teils to sydd wedi llithro neu dorri neu osod rhai newydd, neu ddarn o waith plwm neu osod darn newydd tebyg am debyg
- Newid bylbiau golau, gosodiadau golau a/neu osodiadau trydanol mewn dull tebyg am debyg pan nad oes angen unrhyw geblau newydd neu osodiadau ychwanegol

*Ni ddylid cymryd yn ganiataol nad oes angen hawleb ar waith 'tebyg am debyg'. Er enghraifft, os defnyddiwyd deunydd amhriodol o'r blaen, dylid cywiro hyn. Trafodwch ag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth ym mhob achos.

Dylid nodi hefyd y bydd angen hawleb i osod eitemau newydd mewn eglwys e.e. placiau, paentiadau, gosodiadau a dodrefn parhaol ac ati. Mae yna ragdybiaeth hefyd yn erbyn caniatáu hawleb ar gyfer placiau coffa mewn eglwysi ac eithrio mewn achosion arbennig iawn.

## 5. Beth am waith argyfwng?

Weithiau, mae angen gwneud gwaith yn syth pan fydd digwyddiad na ellid fod wedi'i ragweld yn digwydd fel:

a) Pan fo bygythiad difrifol i ddiogelwch a chynnwys yr adeilad (e.e. yn dilyn mynediad drwy rym, fandaliaeth neu ddifrod gan y tywydd ac ati)

b) Pan fo perygl difrifol i iechyd a/neu ddiogelwch y cyhoedd neu unigolion (e.e. yn sgil ansefydlogrwydd strwythurol yn deillio o effaith ddamweiniol, difrod gan y tywydd, tân, llifogydd ac ati)

c) Pan fo perygl difrifol i gyfanrwydd ffabrig yr adeilad (e.e. yn deillio o enghreifftiau fel y rhai a roddwyd yn (b) uchod a dwyn deunyddiau allweddol, fel plwm)

d) Pan nad oes modd osgoi canslo neu darfu'n ddifrifol ar ddigwyddiad pwysig sydd wedi'i gynllunio ac sydd ar fin digwydd (e.e. priodas, cyngerdd ac ati) o ganlyniad i fethiant gwasanaethau'r adeilad (e.e. y cyflenwad trydan neu ddŵr, y gwresogyddion neu gyflenwad tanwydd cysylltiedig, y system oleuo neu ddraenio wedi methu neu ddim yn gweithio)

e) Pan fo angen cydymffurfio â'r mesurau sydd eu hangen i gyflawni rhwymedigaethau yswiriant adeilad sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r sefyllfaoedd uchod

Mae gwaith argyfwng yn wahanol i waith sydd angen ei wneud ar frys (fel y nodir mewn adroddiad Arolygiad Pum Mlynedd). Mae gwaith argyfwng yn cyfeirio at waith lle gallai oedi cyn gweithredu achosi problemau difrifol, yn enwedig os yw'n effeithio ar ddiogelwch y cyhoedd.

Yn yr amgylchiadau hyn, dylech gysylltu â'ch Archddiacon yn syth, ac ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth os yn bosibl. Maen nhw'n gallu awdurdodi'r isafswm o waith angenrheidiol sy'n ofynnol i ymdrin â'r argyfwng fel y gellir cyflwyno cais am hawleb yn ddiweddarach i gwmpasu unrhyw waith pellach a allai fod yn ofynnol o ganlyniad i'r argyfwng. Cofiwch roi gwybod i'r Ecclesiastical Insurance Group (EIG) cyn gynted â phosibl.

Mae rhagor o wybodaeth am waith argyfwng i'w chael gan Adran Eiddo Corff y Cynrychiolwyr mewn nodyn cyfarwyddyd ar wahân. Ffoniwch 029 2034 8200 neu e-bostiwch property@churchinwales.org.uk am ragor o wybodaeth.

## 6. Pwy all wneud cais am hawleb?

Gall unrhyw un wneud cais am hawleb er mai'r periglor a wardeiniaid eglwys (neu eu hasiant awdurdodedig) sy'n gwneud fel arfer. Bydd angen cael barn y Cyngor Plwyf Eglwysig bob amser er mwyn ystyried hawleb.

## 7. Sut mae gwneud cais am Hawleb?

Mae angen cwblhau cais am hawleb ar-lein drwy'r System Hawlebau Ar-lein (nodwch yn Awst 2019 nid oedd Esgobaeth Bangor wedi mabwysiadu'r System Hawlebau Ar-lein, felly ffoniwch Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth ar 01248 354999). Mae faint o wybodaeth a manylion sydd eu hangen yn dibynnu ar y math o gais rydych chi'n ei gyflwyno h.y. Rhestr A, Rhestr B neu Lawn. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth.

I gael rhagor o wybodaeth am sut i gofrestru gyda'r System Hawlebau Ar-lein a chwblhau cais ar-lein, cliciwch ar y dolenni canlynol:

System Hawlebau Ar-lein Canllawiau Cofrestru i Ymgeiswyr
System Hawlebau Ar-lein Canllawiau Ymgeisio am Hawlebau Rhestr A a B
System Hawlebau Ar-lein Canllawiau Ymgeisio am Hawleb Lawn

Yr allwedd i gyflwyno cais da am hawleb (Rhestr B a Llawn) yw darparu'r lefel briodol o wybodaeth a fydd yn galluogi asesiad llawn a manwl gan y Cofrestrydd a/neu Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth a'r Canghellor. Prif achos oedi wrth ystyried cais yw darparu gwybodaeth annigonol neu gyfyngedig. Gweler Atodiad II am ganllawiau ar y mathau o ddogfennau ategol y bydd eu hangen ar gyfer gwahanol fathau o geisiadau hawleb lawn. Os nad ydych yn siŵr pa fath o wybodaeth ddylai gyd-fynd â chais, holwch Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth.

Mae gofyn i'ch cynghorydd proffesiynol gyflwyno'r cais ar eich rhan yn ddefnyddiol yn aml, yn enwedig ar gyfer gwaith mwy, gan y dylent allu darparu'r wybodaeth angenrheidiol. Y mater allweddol yw dangos yn glir beth yw'r sefyllfa bresennol a beth fydd y sefyllfa ar ôl cwblhau'r gwaith. Gall ffotograffau fod yn ddefnyddiol iawn ar gyfer hyn.

Mae'n hanfodol hefyd eich bod chi'n cyfiawnhau'ch cynnig yn llawn. Y ffordd orau o wneud hyn yw drwy gyflwyno eich cynigion ar sail arwyddocâd yr adeilad a'r angen am y cynnig. Felly dylai Datganiad Arwyddocâd a Datganiad o Anghenion (ac Asesiad o Effaith Treftadaeth weithiau) gael eu cyflwyno gyda phob cais am hawleb lawn. Gall ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth esbonio mwy o'r broses hon.

## 8. Dydw i ddim yn siŵr pa waith sydd ei angen. A ddylwn i wneud cais am hawleb?

Os ydych chi'n gwybod bod angen gwneud gwaith ond nad ydych chi'n siŵr beth sydd angen ei wneud yn union, neu nad ydych am dalu ffioedd uchel cynghorydd proffesiynol, gallwch gael cyngor cyn ymgeisio gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth. Cysylltwch ag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth i drefnu hyn (efallai y bydd gofyn i chi gwblhau ffurflen syml yn amlinellu eich cynigion cychwynnol i helpu gyda'r broses hon).

## 9. Pa mor hir fydd y broses?

Mae hyn yn dibynnu ar y math o gais am hawleb rydych chi'n ei gyflwyno. Mae'n anodd felly rhoi union derfynau amser i'r broses. Nid oes angen ymgynghoriad ffurfiol ar geisiadau Rhestr A am waith cynnal a chadw rheolaidd a mân waith trwsio a gellir eu cwblhau'n gyflym ar-lein. Bydd ceisiadau Rhestr B angen ymgynghoriad ag aelod neu aelodau priodol (nid y pwyllgor llawn) o Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yn unig fel arfer a byddant yn cael eu hadolygu gan Gofrestrydd yr Esgobaeth, sy'n ystyried barn yr aelod(au) wrth ddod i benderfyniad. Mae ceisiadau llawn yn cael eu trafod mewn cyfarfod ffurfiol o Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth ac efallai y bydd angen ymgynghori â chyrff statudol allanol hefyd (fel Cadw, Awdurdod Cynllunio Lleol, Cymdeithasau Amwynder ac ati). Canghellor yr Esgobaeth sy'n penderfynu arnynt ac yn ystyried cyngor gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth, ymatebion ymgynghoreion ac unrhyw sylwadau gan y cyhoedd wrth ddod i benderfyniad. Bydd y broses ymgeisio lawn ar ei chyflymaf os ydych chi'n:

- Trafod eich gwaith arfaethedig ag ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yn y lle cyntaf (h.y. gofyn am gyngor cyn gwneud cais)

- Darparu gwybodaeth lawn yn unol â chanllawiau'r cais hawleb ar-lein
- Darparu cyfiawnhad llawn ar gyfer eich cynigion
- Darparu Datganiad Arwyddocâd ar gyfer eich adeilad ac Asesiad o Effaith Treftadaeth
- Defnyddio gweithiwr proffesiynol i ddarparu gwybodaeth gywir a manwl
- Ymgynghori'n eang ar eich cynigion cyn eu cyflwyno
- Sicrhau bod eich Archddiacon yn gwybod am eich cais

## 10. Beth os bydd y cais am hawleb yn cael ei wrthod?

Yn achos ceisiadau am hawleb lawn, os yw Canghellor yr Esgobaeth yn gwrthod rhoi hawleb ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth a gyflwynwyd, mae yna weithdrefn i apelio i Lys Taleithiol. Ni all gwrthwynebwyr apelio pan fydd hawleb wedi'i rhoi oni bai eu bod yn gallu dangos bod y broses farnwrol wedi methu mewn rhyw fodd.

## 11. Â phwy ddylwn i ymgynghori fel rhan o'm chais am hawleb?

Ar gyfer ceisiadau am hawleb lawn mae angen gosod hysbysiad y tu allan i'ch eglwys yn rhoi 28 diwrnod i bobl gyflwyno eu sylwadau ar y cynnig i Gofrestrydd yr Esgobaeth. Mae yna ffurflen ar-lein ar gyfer yr hysbysiad hwn.

Ar gyfer adeiladau rhestredig, bydd Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yn gofyn am farn gwahanol gyrff (Cadw, Awdurdod Lleol, Cymdeithasau Amwynderau ac ati). Bydd eich cais am hawleb yn cael ei hysbysebu ar wefan yr Esgobaeth i sicrhau cyhoeddusrwydd priodol i'r cynigion. Fodd bynnag, mae'n synhwyrol i chi neu'ch cynghorwyr ymgynghori â'r sefydliadau hyn cyn cyflwyno'ch cais am hawleb, yn enwedig os yw am waith sylweddol neu gynigion dadleuol.

Pan fydd gwaith yn effeithio'n sylweddol ar yr eiddo, bydd Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yn ymgynghori â Chorff y Cynrychiolwyr, fel perchennog. Eto, mae'n synhwyrol ymgynghori â Chorff y Cynrychiolwyr cyn cyflwyno'ch cais am hawleb.

Bydd gallu dangos eich bod wedi ymgynghori â'ch cymuned leol a rhanddeiliaid allweddol, a'u bod yn cefnogi'r hyn rydych yn ceisio ei wneud yn helpu gydag ystyriaeth eich cais hefyd. Bydd hyn yn bwysig iawn i brosiectau sy'n datblygu defnydd a phwrpas cymunedol eich adeilad.

## 12. A yw hawleb yn cwmpasu unrhyw adeiladau eraill yn ogystal ag eglwys?

Mae angen hawleb arnoch ar gyfer gwaith i'ch eglwys neu yn eich mynwent. Os oes adeilad neu strwythur o fewn cwrtil yr eglwys, bydd angen hawleb hefyd i wneud gwaith iddo. Byddai tai elor neu byrth mynwentydd yn enghraifft o hyn.

Os yw'ch eglwys wedi'i rhestru, NI fydd unrhyw strwythur o fewn ei chwrtil sydd wedi'i restru ar wahân angen cydsyniad adeilad rhestredig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Fodd bynnag, os nad yw'ch eglwys wedi'i rhestru, BYDD y strwythurau rhestredig hyn angen cydsyniad adeilad rhestredig. Dylech ymgynghori ag Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth bob amser gan fod y gyfraith wedi newid ar hyn yn ddiweddar.

Yn gyffredinol, ni fydd cerrig beddau newydd neu waith trwsio i rai cyfredol angen hawleb cyn belled â'u bod yn dod o fewn terfynu rheoliadau mynwentydd y Cyfansoddiad.

Mae'n rhaid cael hawleb i gadw lle i fedd a dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y bydd hyn yn cael ei rhoi.

Mae rhagor o wybodaeth am reoli mynwentydd a cherrig beddau ar gael gan Adran Eiddo Corff y Cynrychiolwyr mewn nodyn cyfarwyddyd ar wahân. Ffoniwch 029 2034 8200 neu e-bostiwch property@churchinwales.org.uk am ragor o wybodaeth.

## 13. Pam mae angen cymaint o wybodaeth ar gyfer cais am hawleb lawn?

Mae'n wir fod cais am hawleb lawn yn gofyn mwy o gwestiynau na fyddai ffurflen gais seciwlar ar gyfer cydsyniad adeilad rhestredig. Y rheswm am hyn yw mai hawleb yw'r unig fath o gydsyniad sydd ei angen ar yr eglwys ei hun – mae'n broses un cam – ac yn fodd o ymdrin â'r holl faterion a allai fod o ddiddordeb i'r eglwys mewn un broses.

## 14. Pryd mae angen i mi ofyn am ganiatâd cynllunio yn ogystal â hawleb?

Dylech ofyn am gyngor bob amser ynghylch a oes angen caniatâd cynllunio gan ei fod yn faes technegol. Bydd eich cynghorydd proffesiynol ac Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yn gallu cynghori a/neu Adran Eiddo Corff y Cynrychiolwyr. Mewn egwyddor, mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer unrhyw weithgarwch adeiladu neu beirianneg o bwys neu newid defnydd. Enghreifftiau nodweddiadol o achosion lle bydd angen caniatâd cynllunio yn ogystal â hawleb fydd:

- Ar gyfer estyniad i'ch adeilad
- Gwaith sy'n newid golwg allanol yr adeilad yn sylweddol (bydd hyn yn cynnwys paentio'r tu allani  adeilad rhestredig sydd heb ei baentio o'r blaen neu osod ffenestr yn y to)
- Newid defnydd yr eglwys yn sylweddol fel gosod swyddfeydd neu gaffi
- Gosod mast ffôn symudol ar y tŵr
- Gosod llwybrau newydd neu newid cynllun

Bydd adran gynllunio'ch awdurdod lleol yn gallu cynghori a bydd polisïau lleol yn amrywio ym mhob ardal. Dylech wirio'n ofalus ym mhob achos gan fod canlyniadau peidio â chael caniatâd cynllunio pan fo angen yn gallu bod yn ddifrifol, yn cynnwys gorchymyn gorfodi i ddadwneud y gwaith (er gwaethaf cael hawleb).

## 15. Oes angen hawleb ar gyfer gwaith i goed?

Nac oes. OND byddwch angen cydsyniad yr Archddiacon a bydd gofyn iddo/iddi fod yn fodlon bod angen gwneud y gwaith, gyda thystiolaeth gan arbenigwr coed cymwysedig fel arfer.

Dylid cymryd gofal arbennig wrth ystyried gwaith i goed yw yn enwedig coed yw hynafol neu hynod. Gellir gweld manylion y coed hyn ar wefan yr *Ancient Yew Group*[1].

Os yw'ch eglwys wedi'i lleoli mewn Ardal Gadwraeth neu wedi'i gwarchod gan Orchymyn Cadw Coed bydd angen i chi gael cydsyniad gan eich awdurdod lleol hefyd. Gallwch wirio a oes gan goeden orchymyn o'r fath drwy gysylltu â'ch awdurdod lleol.

## 16. Rydw i wedi clywed am 'Esemptiad Eglwysig', beth mae'n ei olygu?

[1] www.ancient-yew.org.

Mae'r Eglwys yng Nghymru wedi'i dosbarthu fel enwad esempt gan ei bod wedi dangos bod ei system fewnol ei hun o ganiatâd cynllunio (h.y. y system hawlebau) yn gyfwerth â'r system seciwlar. Mae hyn yn golygu nad yw gwaith ar eglwysi rhestredig a strwythurau eraill o fewn ei chwrtil angen cydsyniad adeilad rhestredig ar wahân gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae'r "esemptiad eglwysig" hwn yn rhan o ddeddfwriaeth genedlaethol fel y disgrifir yng *Ngorchymyn Esemptiad Eglwysig (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) (Cymru) 2018*. Gellir gweld a lawrlwytho'r canllawiau sy'n cyd-fynd ag ef, *Rheoli Newid i Fannau Addoli Rhestredig: Esemptiad Eglwysig* ar wefan Cadw[2].

Mae esemptiad o'r fath yn gonsesiwn gwerthfawr ond mae'n golygu bod rhaid i'r system hawlebau fod yn gadarn a gallu gwrthsefyll craffu. Mae'n rhaid iddi gydbwyso anghenion yr eglwys a gwarchod treftadaeth.

<u>Fodd bynnag, nid yw'r esemptiad yn ymestyn i Ganiatâd Cynllunio (mae hwn yn gydsyniad gwahanol i Gydsyniad Adeilad Rhestredig). Gweler adran 14 am ragor o wybodaeth.</u>

Alex Glanville
Pennaeth y Gwasanaethau Eiddo
Yr Eglwys yng Nghymru
Diweddarwyd 29 Awst 2019 (TA)

[2] https://cadw.llyw.cymru/

# Atodiad I

Cyfansoddiad yr Eglwys yng Nghymru
Cyfrol II Adran IV

RHAN XII – Llysoedd Esgobaethol:

Gweithdrefn Hawleb

58. Bydd cais am hawleb yn cael ei wneud gan unrhyw berson, personau neu gorff sydd â buddiant i'w hyrwyddo. Gall yr ymgeisydd ymgynghori â Phwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth am unrhyw agweddau ar y cais arfaethedig, gweler Ffurflen 1 Rhan 1. Mae'r broses hon yn ddewisol a gall ymgeisydd gyflwyno cais ffurfiol ar unrhyw adeg.

59. Bydd cais am hawleb yn cael ei wneud yn Ffurflen 1 yn Rhan 2 Atodlen 3 yn y modd canlynol:

    (i) Bydd yr ymgeisydd yn cwblhau Ffurflen 1 Rhan 2 Atodlen 3 ac yn ei chyflwyno i'r Cofrestrydd, gyda chopi wedi'i ardystio o benderfyniad y Cabidwl neu'r Cyngor Plwyf Eglwysig, ar ôl ystyried gwrthrychau'r cais, gan Glerc y Cabidwl neu Ysgrifennydd y Cyngor Plwyf Eglwysig, .

    (ii) Os nad yw'r ymgeisydd yn Gabidwl neu Beriglor a Wardeniaid Eglwys plwyf, datganiad ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan Glerc y Cabidwl yn enw'r Cabidwl, neu gan y Periglor neu'r Clerig Cyfrifol neu'r Deon Ardal a'r Wardeiniaid Eglwys, fel y bo'r achos, yn nodi a ydynt yn gwrthwynebu gwrthrychau'r cais ai peidio.

60. Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am sicrhau bod Hysbysiad o gyflwyno cais yn rhoi manylion rhesymol y gwaith a ragwelir yn cael ei arddangos mewn man cyhoeddus amlwg yr un adeg ag y gwneir y cais:

    (i) yn achos Cadeirlan, yn cynnwys Eglwys Gadeiriol Sant Gwynllyw, yn y Gadeirlan dan sylw a'r cyffiniau;

    (ii) fel arall yn eglwys y plwyf a phob eglwys arall yn y Plwyf ac yng nghyffiniau pob eglwys a phob eglwys neu eglwysi o'r fath;

    am gyfnod o wyth diwrnod ar hugain o leiaf o ddyddiad cyflwyno'r cais i'r Cofrestrydd ac ar neu cyn y dyddiad arddangos, a bydd copi o'r hysbysiad yn cael ei anfon at y Cofrestrydd. Bydd Hysbysiad o'r fath yn dilyn Ffurflen 2 yn Atodlen 3.

61. Lle byddai'r gwaith a ragwelir yn newid neu'n effeithio ar gymeriad adeilad mewn Ardal Gadwraeth neu sydd wedi'i restru o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 neu unrhyw ddiwygiad statudol neu ailddeddfiad ohoni sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol arbennig, bydd yr Ymgeisydd yn cyhoeddi copi o'r Hysbysiad, wedi'i ardystio gan Glerc y Cabidwl neu Ysgrifennydd y Cyngor Plwyf Eglwysig, mewn papur newydd lleol yn ddi-oed.

62. O fewn saith diwrnod i dderbyn yr eitemau a grybwyllir yn Rheol 59 ac unrhyw sylwadau perthnasol a wnaed erbyn hynny mewn ymateb i'r Hysbysiad bydd y Cofrestrydd yn anfon copïau i Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth a'r Comisiwn mewn unrhyw achos sy'n dod o fewn Rheol 14(a) o Reolau'r Comisiwn.

63. Yn achos adeilad mewn Ardal Gadwraeth neu sydd wedi'i restru o dan Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth) 1990 neu unrhyw ddiwygiad statudol neu

ailddeddfiad ohoni sydd o ddiddordeb pensaernïol neu hanesyddol, o fewn 14 diwrnod bydd Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yn anfon hysbysiad a chopïau o'r Hysbysiad y cyfeirir ato yn Rheol 60 o'r Cais ac unrhyw ddogfennau eraill a gyflwynodd yr Ymgeisydd i'r Cofrestrydd at CADW a'r awdurdod cynllunio lleol.

64.1 Lle byddai'r gwaith a ragwelir yn newid neu'n effeithio ar gymeriad adeilad neu'n effeithio ar bwysigrwydd archaeolegol adeilad o'r fath neu weddillion pensaernïol ynddo neu yn ei gwrtil, o fewn 14 diwrnod bydd Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yn anfon hysbysiad ynghyd â chopi o'r Hysbysiad y cyfeirir ato yn Rheol 60 at y cymdeithasau amwynder cenedlaethol (fel y'u diffinnir yn rhan 2 y Rheol hon). Os yw'r gwaith yn cynnwys dymchwel bydd yr hysbysiad a chopi o'r Hysbysiad yn cael eu hanfon at Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru hefyd.

64.2 At ddibenion y Rheolau hyn, mae "cymdeithasau amwynderau cenedlaethol" yn golygu unrhyw un o'r canlynol: Y Gymdeithas Henebion, y Georgian Group, y Gymdeithas Gwarchod Adeiladau Hynafol, y Gymdeithas Fictoraidd, Cyngor Archaeoleg Prydain, Cymdeithas yr 20fed Ganrif ac unrhyw gorff arall o'r fath a allai gael ei ddynodi o dro i dro gan Bwyllgor Sefydlog y Corff Llywodraethol.

65. Yn achos Cadeirlan, yn cynnwys Eglwys Gadeiriol Gwynllyw, bydd Ysgrifennydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth yn afon y copïau y cyfeirir atynt yn Rheol 63 at y Comisiwn hefyd.

66.1 Yn achos unrhyw un o'r materion a nodir yn y Rheol hon, bydd y Cofrestrydd, o fewn saith diwrnod i dderbyn y cais, yn anfon copïau o'r Cais, y dogfennau sy'n cyd-fynd â'r Cais ac unrhyw gyngor dilynol at Gorff y Cynrychiolwyr. Y materion hyn yw:

66.2 (i) dymchwel ffabrig adeilad neu wneud newidiadau neu ychwanegiadau sylweddol iddo;

(ii) adeiladu adeiladau newydd;

(iii) neilltuo ardaloedd ar gyfer claddu llwch;

(iv) cynnig o fewn y Rheoliadau'n ymwneud â symud Henebion a Cherrig Beddau;

(v) gwaredu unrhyw ran o ffabrig neu gynnwys adeilad;

(vi) gwaith a fyddai'n effeithio'n sylweddol ar yswiriant adeilad;

(vii) gwaith sydd angen hawddfraint neu fforddfraint i'w gwblhau;

(viii) unrhyw newid i ddefnydd adeilad neu dir.

<u>Sylwadau neu Wrthwynebiadau</u>

67. Yn amodol ar Reol 68 bydd Corff y Cynrychiolwyr yn dychwelyd y copïau y cyfeirir atynt yn Rheol 66 at y Cofrestrydd o fewn wyth diwrnod ar hugain o'u derbyn, gyda naill ai unrhyw arsylwadau, sylwadau neu wrthwynebiadau ysgrifenedig y mae'n dymuno eu codi am y Cais, neu drwy ddatganiad ysgrifenedig i nodi nad oes ganddo ddim o'r fath i'w cynnig.

68. Efallai bydd Corff y Cynrychiolwyr, drwy hysbysiad wedi'i gyfeirio at y Cofrestrydd, angen i Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth, y Comisiwn, yr Archddiacon neu berson arall a benodir o dan Reol 69 gan yr Esgob, ddarparu adroddiad arall ar unrhyw fater y mae'n dymuno ei godi ar y Cais. O fewn wyth diwrnod ar hugain i ddyddiad hysbysiad o'r fath, bydd Pwyllgor Ymgynghorol yr

Esgobaeth, y Comisiwn, yr Archddiacon neu berson arall a benodir o dan Reol 69 gan yr Esgob, yn cyflwyno adroddiad ysgrifenedig arall i'r Cofrestrydd o dan Ffurflen 7 Atodlen 3, a fydd yn anfon copi ohono i Gorff y Cynrychiolwyr. Bydd darpariaethau Rheol 67 yn berthnasol mewn perthynas â'r adroddiad y cyfeirir ato yn y Rheol hon.

69. O fewn pumdeg chwech diwrnod i dderbyn y copïau y cyfeirir atynt yn Rheol 62, bydd Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth neu'r Comisiwn, fel y bo'r achos, yn cyflwyno ei gyngor ar ffurf ysgrifenedig wedi'i lofnodi gan ei Gadeirydd, wedi'i gyfeirio at y Canghellor. Cyngor ar rinweddau artistig, esthetig neu bensaernïol y gwaith a ddisgrifir yn y Cais fydd hwn ynghyd ag unrhyw sylwadau gan unrhyw gyrff y cyfeirir atynt yn Rheol 64 neu yr anfonwyd yr Hysbysiad y cyfeirir ato yn Rheol 60 atynt. Bydd yr Archddiacon y mae testun y Cais yn ei archddiaconiaeth, os gwêl yn dda neu os yw'n cael cais gan y Canghellor, yn ychwanegu ei gyngor ysgrifenedig ar wahân i'r Canghellor ar rinweddau diwinyddol y gwaith. Os yw'r archddiaconiaeth yn wag, neu os nad yw'r Archddiacon ar gael neu os yw wedi'i anghymwyso, ac yn achos pob Cais sy'n ymwneud ag unrhyw Gadeirlan, yn cynnwys Eglwys Gadeiriol Sant Gwynllyw, bydd Esgob yr Esgobaeth yn penodi person addas i weithredu yn lle'r Archddiacon o dan Ffurflen 8 yn Atodlen 3.

70. O fewn saith niwrnod i dderbyn ceisiadau, arsylwadau, sylwadau, gwrthwynebiadau neu ddatganiadau gan Gorff y Cynrychiolwyr o dan Reol 67, Pwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth a'r Comisiwn, bydd y Cofrestrydd yn cyfeirio papurau o'r fath i'r Canghellor.

<u>Gwŷs</u>

71. O fewn wyth diwrnod ar hugain i dderbyn y Cais, y dogfennau a'r papurau, bydd y Canghellor naill ai'n caniatáu'r hawleb a bydd Rheolau 84, 85 a 86 yn berthnasol, neu'n cyhoeddi Gwŷs wedi'i chyfeirio at yr Ymgeisydd a Chorff y Cynrychiolwyr a phob person arall â buddiant, yn cynnwys yr Archddiacon neu berson arall a benodir o dan Reol 69 gan yr Esgob, a bydd yr Wŷs yn dilyn Ffurflen 14 yn Atodlen 3.

72. Yn achos cais am Hawleb yn ymwneud ag eglwys heblaw Cadeirlan neu Eglwys Gadeiriol Sant Gwynllyw, ar unrhyw adeg cyn caniatáu'r Hawleb, neu gyhoeddi Gwŷs gall y Cofrestrydd, neu Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth ofyn am gyngor y Comisiwn ar gais o'r fath, lle bydd y trafodion o dan Reol 71 yn cael eu hoedi am gyfnod nad yw'n fwy na wyth diwrnod ar hugain. Yn ystod yr amser hwnnw dylai cyngor y Comisiwn gael ei roi, ac os mai'r Cofrestrydd neu Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth a ofynnodd amdano, dylent ei ddarparu i'r Canghellor.

73. Bydd Clerc y Cabidwl, neu Wardeniaid yr Eglwys, yn arddangos yr Wŷs yn y lleoliad neu'r lleoliadau a nodir yn Rheol 60, am gyfnod o bedwar diwrnod ar ddeg yn dechrau o fewn tridiau i dderbyn yr Wŷs. Bydd yr Wŷs, wedi'i chymeradwyo gyda thystysgrif o arddangosiad priodol o dan y rheol hon, yn cael ei dychwelyd at y Cofrestrydd o fewn tridiau wedi i'r cyfnod arddangos ddod i ben.

74. O fewn pedwar diwrnod ar ddeg i gyhoeddi'r Wŷs bydd y Cofrestrydd yn anfon copi ohoni at unrhyw berson, gorff neu gymdeithas sydd wedi cyflwyno sylwadau.

75. Gall y Canghellor, ar unrhyw gam o'r trafodion, orchymyn cyflwyno Gwŷs arall neu Wysion eraill gan ddilyn gweithdrefn Rheolau 71 a 73.

76.1 Dylai unrhyw berson sy'n dymuno gwrthwynebu'r Cais (boed y cyfan neu ran ohono'n unig) wneud hynny drwy gyflwyno Hysbysiad o Wrthwynebiad i'r Hawleb i'r Cofrestrydd o fewn un diwrnod ar hugain o'r dyddiad pan gafodd yr Wŷs (neu'r Wŷs ddiweddaraf fel y bo'r achos) ei harddangos gyntaf o dan Reol 73.

76.2 Bydd Hysbysiad o Wrthwynebiad yn dilyn Ffurflen 11 yn Atodlen 3 ac yn nodi'r gwrthwynebiad ar ffurf paragraffau wedi'u rhifo'n ddilynol.

77. Pan fydd Gwŷs wedi'i chyflwyno, ni fydd Hawleb yn cael ei chaniatáu neu ei gwrthod tan y bydd y cyfnod ar gyfer cyflwyno Hysbysiadau o Wrthwynebiad wedi dod i ben.

78. Os na chyflwynir Hysbysiad o Wrthwynebiad i'r Hawleb erbyn y dyddiad perthnasol, gall y Canghellor ganiatáu neu wrthod yr Hawleb heb wrandawiad, a hynny o fewn saith diwrnod ar ôl i'r dyddiad ar gyfer cyflwyno Hysbysiadau o Wrthwynebiad ddod i ben. Fel arall, yn amodol ar ddarpariaethau Rheol 79, bydd y Canghellor yn pennu dyddiad ar gyfer gwrandawiad, na fydd yn llai na un diwrnod ar hugain nac yn fwy na dau ddiwrnod a deugain ar ôl y dyddiad dod i ben. Bydd y Cofrestrydd yn rhoi gwybod am ddyddiad y gwrandawiad i'r Ymgeisydd, y rhai sydd wedi cyflwyno Hysbysiad o Wrthwynebiad a phob parti arall â buddiant.

79.1 Cyn pennu dyddiad ar gyfer gwrandawiad ac os yw'n ystyried bod llwybr o'r fath yn briodol, gall y Canghellor wahodd y partïon i dderbyn penderfyniad ar sail sylwadau ysgrifenedig, yn hytrach na thrwy wrandawiad. Os yw pob parti'n cytuno'n ysgrifenedig, bydd y Cofrestrydd yn gofyn iddynt gyflwyno eu sylwadau iddo ef/hi o fewn un diwrnod ar hugain ar ôl i'r cyfnod ar gyfer cyflwyno Hysbysiadau o Wrthwynebiad ddod i ben.

79.2 Ar ôl derbyn sylwadau o'r fath, bydd y Cofrestrydd yn rhoi copi i bob parti o sylwadau'r parti arall ac yn rhoi un diwrnod ar hugain iddynt ymateb yn ysgrifenedig.

80. O fewn pedwar diwrnod ar ddeg ar ôl derbyn hysbysiad o ddyddiad gwrandawiad, neu ar ôl cyflwyno sylwadau ysgrifenedig o dan Reol 79, bydd unrhyw berson, corff neu gymdeithas a oedd wedi cyflwyno Hysbysiad o Wrthwynebiad i'r Hawleb naill ai'n cyflwyno swm i'r Cofrestrydd fel sicrwydd am gostau ag y gall y Canghellor ei bennu, neu'n gweithredu Bond yn yr un ffurf ag y nodir yn Ffurflen 12 o Atodlen 3 at yr un diben ac yn yr un swm, gydag unrhyw sicrwydd sy'n ofynnol gan y Canghellor ac wedi'i gymeradwyo ganddo. Os na chyflwynir hyn na Bond, gall y Canghellor ganiatáu'r Hawleb, gan anwybyddu Hysbysiad neu Hysbysiadau o Wrthwynebiad.

81. Ni fydd yr Archddiacon na pherson arall a benodir o dan Reol 69 gan yr Esgob, Esgob yr Esgobaeth na Chorff y Cynrychiolwyr yn atebol am gostau.

82. Mewn gwrandawiad Cais, gall y Canghellor, ar delerau sy'n gyfiawn yn ei farn ef neu hi, roi caniatâd i unrhyw berson, corff neu gymdeithas nad oedd wedi bod yn rhan o'r achos yn flaenorol gael ei glywed.

<u>Caniatáu neu wrthod Hawleb</u>

83.1 O fewn wyth diwrnod ar hugain, neu'r diwrnod olaf a ganiateir gan y Cofrestrydd i gyflwyno ymatebion i unrhyw sylwadau ysgrifenedig, bydd y Canghellor naill ai'n caniatáu neu wrthod yr Hawleb ac yn rhoi rhesymau dros ei benderfyniad yn y naill achos a'r llall.

83.2 Os nad yw'r Canghellor yn datgan ei benderfyniad a'r rhesymau drosto ar lafar ar ddiwedd y gwrandawiad, bydd y Cofrestrydd yn hysbysu'r partïon a'r personau neu'r cyrff y cyfeirir atynt yn

Rheol 68 y Dyfarniad cyn gynted ag sy'n bosibl wedi hynny ac yn anfon copi o'r cyfryw Ddyfarniad at y partïon o fewn tridiau fan bellaf ar ôl i'r Cofrestrydd dderbyn y cyfryw Ddyfarniad.

84. Gellir caniatáu'r Hawleb gyda neu heb amodau.

85.1 Dylai'r penderfyniad i ganiatáu neu wrthod yr Hawleb gael ei gofnodi'n ysgrifenedig, a'i lofnodi gan y Canghellor. Bydd caniatáu neu wrthod o'r fath yn dilyn Ffurflen 10a neu Ffurflen 10b yn Atodlen 3 fel y bo'r achos.

85.2 Bydd yr Hawleb yn cael ei gweithredu o fewn cyfnod o bum mlynedd o ddyddiad ei chaniatáu neu gyfnod byrrach yn unol â chyfarwyddyd y Canghellor neu bydd yn mynd yn ddi-rym fel arall.

86. Wrth ganiatáu neu wrthod yr Hawleb, bydd y Cofrestrydd yn anfon y llythyr caniatáu neu wrthod, fel y bo'r achos, at yr Ymgeisydd, gyda chopïau at Gorff y Cynrychiolwyr, Ysgrifenyddion Pwyllgor Ymgynghorol Esgobaethau a'r Comisiwn (os yw'n ymwneud â'r achos), Clerc y Cabidwl neu Ysgrifennydd y Cyngor Plwyf Eglwysig (fel y bo'r achos), yr Archddiacon neu berson arall a benodir o dan Reol 69 gan yr Esgob, a phawb arall a allai fod wedi cyflwyno sylwadau perthnasol yn ystod unrhyw gamau o dan y Rheolau hyn.

87. Wrth gwblhau'r gwaith a awdurdodwyd gan yr Hawleb, neu'r rhannau hynny o'r gwaith sydd wedi'u cwblhau am y tro, bydd yr Ymgeisydd yn anfon Tystysgrif (wedi'i chydlofnodi gan y pensaer, syrfëwr adeiladau siartredig neu gynghorydd proffesiynol arall os defnyddiwyd un) at y Cofrestrydd i nodi bod y gwaith wedi'i gyflawni yn unol â thelerau'r Hawleb ac, ar yr un pryd, yn anfon copi o'r cyfryw Dystysgrif at Gorff y Cynrychiolwyr ac at Ysgrifenyddion y Pwyllgor a'r Comisiwn (os yw'n ymwneud â'r achos). Bydd Tystysgrif o'r fath yn dilyn Ffurflen 13 Atodlen 3.

88. Mewn unrhyw achos y mae'r Rhan hon yn berthnasol iddo, bydd yr Is-ganghellor yn meddu ar yr holl bwerau ac yn gallu cyflawni holl ddyletswyddau'r Canghellor y mae wedi'i benodi i'w gweithredu yn unol ag adran 24 (3) o Bennod IX.

# Atodiad II
## Dogfennau Ategol ar gyfer Ceisiadau Hawleb

### Systemau Gwresogi, Goleuo a Sain

- Cynllun gyda nodiadau o'r eglwys yn dangos lleoliad y cyfarpar newydd (e.e. rheiddiaduron, goleuadau, boeler, seinyddion ac ati) a gosodiadau atodol fel ceblau trydan, socedi, switsys a rheolyddion
- Ffotograffau o'r ardaloedd yn yr eglwys lle bydd y cyfarpar newydd yn cael ei osod. Dylid rhoi nodiadau ar y rhain i ddangos lleoliad yr eitemau newydd
- Manyleb a/neu ddyfynbris gyda manylion y gwaith arfaethedig gan weithiwr proffesiynol cymwysedig addas
- Manylion y cyfarpar newydd e.e. catalog/manyleb y gweithgynhyrchwr (i gynnwys dimensiynau, lliw, pwysau ac ati)
- Manylion sut y bydd y cyfarpar yn cael ei osod i'r eglwys ac unrhyw fesurau a gymerwyd i leihau'r difrod i'w ffabrig hanesyddol a'i effaith weledol e.e. ailddefnyddio gosodiadau ffitiadau presennol
- Datganiad Arwyddocâd ac Anghenion

Dylai ymgeiswyr ddarllen nodiadau cyfarwyddyd yr Eglwys yng Nghymru ar *Gwresogi mewn Eglwysi* a *Goleuadau mewn Eglwysi*. Cysylltwch â'r Adran Eiddo yn property@churchinwales.org.uk neu 029 2034 8200 i gael copïau o'r dogfennau hyn.

### Dodrefn, Deunyddiau a Charpedi

- Cynllun a ffotograffau o'r eglwys yn dangos lleoliad yr eitem(au) newydd
- Ffotograffau/lluniau catalog o'r eitemau, yn cynnwys manylion deunyddiau a dimensiynau
- Manylion sut y bydd yr eitemau'n cael eu gosod yn sownd (os o gwbl) ac unrhyw fesurau a gymerir i leihau unrhyw ddifrod i'r ffabrig hanesyddol presennol
- Os oes carped newydd i'w osod, gwybodaeth am orffeniadau presennol y llawr (e.e. teils, cerrig llorio, cerrig beddau ac ati) a'r math o isgarped i'w ddefnyddio
- Datganiadau Arwyddocâd ac Anghenion

Gwaith mewn Mynwentydd yn cynnwys waliau, pyrth mynwentydd, beddau, cofebau, cerrig beddau, llwybrau newydd neu newidiadau i rai presennol, meinciau newydd (gyda phlinthau), toiledau/systemau draenio newydd a chyflenwad dŵr.

- Cynllun gyda nodiadau a ffotograffau o'r fynwent yn dangos yr ardal(oedd) sy'n cael eu heffeithio
- Manyleb, dyfynbris neu adroddiad cadwraethwr yn rhoi manylion y gwaith arfaethedig
- Asesiad archaeolegol (os bwriedir gwneud gwaith o dan y ddaear)
- Cadarnhad bod yr ymgeisydd wedi ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol os bydd y gwaith arfaethedig yn effeithio ar gymeriad neu leoliad yr eglwys a/neu'r fynwent a manylion eu hymateb (efallai y bydd angen caniatâd cynllunio)

- Datganiadau Arwyddocâd ac Anghenion

## Ffenestr Gwydr Lliw Newydd

Dylid gofyn am gyngor gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth cyn cyflwyno cais.

- Cynllun o'r eglwys yn dangos lleoliad y ffenestr newydd
- Ffotograffau clir yn dangos yr ardal ble bydd y ffenestr newydd yn cael ei gosod
- Lluniadau dylunio manwl yn cynnwys y dimensiynau, y lliwiau a'r deunyddiau i'w defnyddio
- Datganiad dylunio yn esbonio athroniaeth y cynllun
- Manyleb/rhestr waith ar gyfer tynnu'r ffenestr bresennol a gosod yr un newydd
- Datganiadau Arwyddocâd ac Anghenion

Dylai ymgeiswyr ddarllen nodyn cyfarwyddyd yr Eglwys yng Nghymru ar *Wydr Lliw Newydd mewn Eglwysi.* Cysylltwch â'r Adran Eiddo yn property@churchinwales.org.uk neu 029 2034 8200 am gopi.

## Trwsio'r Waliau a'r To

- Ffotograffau a chynllun gyda nodiadau yn dangos lleoliad yr ardal(oedd) sy'n cael eu heffeithio
- Manyleb neu restr o'r gwaith
- Datganiadau Arwyddocâd ac Anghenion

## Gwaith Cadwraeth a Thrwsio Gwaith Celf (a gwrthrychau eraill)

- Ffotograffau clir o'r eitemau yn dangos manylion yr ardaloedd i'w cadw neu drwsio
- Adroddiad (i gynnwys rhestr o'r gwaith neu fanyleb) gan arbenigwr neu warchodwr cymwysedig addas
- Datganiadau Arwyddocâd ac Anghenion

## Clychau ac Organau

- Adroddiad gan grogwr clychau neu wneuthurwr clychau a ddylai gynnwys manyleb neu restr o'r gwaith. Os oes angen gwaith strwythurol, dylid cynnwys manyleb neu adroddiad pensaer neu beiriannydd strwythurol ar gyfer yr elfen hon o'r gwaith.
- Adroddiad gan adeiladwr organau. Os oes organ newydd i'w gosod, dylid darparu manylion llawn amdani ac unrhyw organ fydd yn cael ei disodli, yn cynnwys cynllun gyda nodiadau o'r eglwys yn dangos lleoliad yr hen organ a'r organ newydd.
- Yn y naill achos a'r llall, dylid darparu ffotograffau o'r clychau, organau ac unrhyw strwythurau ategol.
- Datganiadau Arwyddocâd ac Anghenion

## Ad-drefnu, Estyniadau a Chyfleusterau Newydd (cegin, toiled ac ati)

Dylid gofyn am gyngor anffurfiol gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth cyn cyflwyno cais.

- Ffotograffau allanol a mewnol o'r eglwys, yn cynnwys yr ardaloedd lle bydd y gwaith arfaethedig wedi'i leoli
- Lluniadau pensaer yn cynnwys cynlluniau a gweddluniau (presennol ac arfaethedig)
- Manyleb a rhestr o'r gwaith
- Datganiad dylunio yn esbonio'r athroniaeth y tu ôl i'r cynllun
- Asesiad archaeolegol (os bwriedir gwneud unrhyw newidiadau i ffabrig yr eglwys neu'r fynwent)
- Datganiadau Arwyddocâd ac Anghenion (yr olaf i gynnwys arfarniad o opsiynau)

## Gwerthu, Symud neu Waredu Eitemau

- Ffotograffau o'r eitemau
- Datganiad yn cyfiawnhau eu gwerthu, symud neu waredu (gellir cynnwys hwn yn y Datganiadau Arwyddocâd ac Anghenion neu'r ffurflen Ddeiseb)
- Prisiad o'r eitemau

Dylai ymgeiswyr ddarllen nodyn cyfarwyddyd yr Eglwys yng Nghymru ar *Gynnwys Eglwysi.* Cysylltwch â'r Adran Eiddo yn property@churchinwales.org.uk neu 029 2034 8200 am gopi.

## Paneli PV a Solar

Dylid gofyn am gyngor anffurfiol gan Bwyllgor Ymgynghorol yr Esgobaeth cyn cyflwyno cais.

- Cynllun gyda nodiadau o'r eglwys yn dangos lleoliad y cyfarpar newydd (e.e. paneli a chyfarpar rheoli, ceblau ac ati)
- Ffotograffau o'r ardaloedd yn yr eglwys lle bydd y cyfarpar newydd yn cael ei osod. Dylai'r rhain gynnwys nodiadau i ddangos lleoliad yr eitemau newydd
- Manyleb a rhestr o'r gwaith, a chadarnhad gan weithiwr proffesiynol cymwysedig addas y gall strwythur y to gynnal pwysau ychwanegol y cyfarpar
- Manylion y cyfarpar newydd e.e. catalog/manyleb gweithgynhyrchwr (i gynnwys dimensiynau, lliw, pwysau ac ati)
- Manylion sut y bydd y cyfarpar yn cael ei osod yn sownd i'r eglwys ac unrhyw fesurau a gymerir i leihau'r difrod i'w ffabrig hanesyddol a'i effaith weledol
- Cadarnhad bod yr ymgeisydd wedi ymgynghori â'r awdurdod cynllunio lleol gan y gall fod angen caniatâd cynllunio
- Datganiadau Arwyddocâd ac Anghenion